

“Gwerthusiad beirniadol sy’n nodi’r camau addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy’n seiliedig ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd.”

Cyflwyniad

Yn ôl Cohen, Manion and Morrison (2011) mi fydd digwyddiad critigol yn goleuo neu deipio nodwedd benodol amlwg iawn o’r ddysgu neu addysgu. Fe sonnir Wragg (2013) mae’r digwyddiadau yma yn ymddangos mwy o ddiddordeb nag rhai eraill i’r arsylwr ac o ganlyniad maen nhw’n gwarantu mwy o fanylder a monitor nag rhai eraill. Er bod y digwyddiadau yma’n anarferol neu’n anomaledd, mae’n bosib rhain i fod yn ddadlennol iawn; gellir cynnig mewnwleidiad na fydd yn bosib o dan arsylwi rheolaidd. Yn aml, mae digwyddiadau critigol neu feirniadol yn anaml iawn (Cohen, Manion and Morrison, 2011). Dywed Brookfield (1998) gellir ymarferydd adfyfyriol sefyll tu fas o’i hymarfer a gweld beth y mae ef/hi yn ei wneud o safbwynt eang. Y mae ymarferydd adfyfyriol yn defnyddio rhesymeg sydd wedi’i seilio ar sail dda ac mae’n defnyddio’r rhain i wneud penderfyniadau anodd. Cred Brookfield mae’r rhesymeg yma - set o ragdybiaethau craidd a archwiliwyd yn feirniadol ynghylch pam mae’n gwneud yr hyn mae’n ei wneud yn y ffordd mae’n ei wneud - yn rheidrwydd goroesi. Seilir yr ymarferydd yma mewn prosiect moesol, deallusol a gwleidyddol a rhoddir ef/hi gweledigaeth drefniadol iddynt o’r hyn maent yn ceisio’i gyflawni.

Arsylwi

Cyd-destun ysgol a dosbarth

Trwy gydol yr aseiniad yma, fe fyddai’n cyfeirio at yr ysgol yn yr astudiaeth yma fel “Ysgol X” a’r disgybl a arsylwyd fel “Myfyriwr X” er mwyn cadw cyfrinachedd a ddilyn ymarfer moesegol yn sgil canllawiau academiaidd Bera.ac.uk (2019). Y mae Ysgol X yn ysgol ddwy ffrwd a rhyw gymysg ar gyfer 305 o ddisgyblion (Mylocalschool.gov.wales, 2019). Ysgol ar gyfer y feithrin, babanod a’r iau yw Ysgol X sy’n cymhwyso disgyblion o 3 i 11 mlwydd oed. Siaradwr y Gymraeg mewn 35.7% o gartrefi myfyrwyr Ysgol X. Y ganran gyfartalog 3 blynedd ar gyfer y nifer o blant sydd a’r fraint i brydiau bwyd am ddim yw 10.55 (Mylocalschool.gov.wales, 2019). Mae 1.36% o’r disgyblion yn dod o deuluoedd ble mae Cymraeg neu Saesneg yw’r ail iaith h.y. caiff Pwyleg neu Bortiwgaleg eu siarad yn eu lle. Mae yna 18.3% o ddisgyblion ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn yr ysgol; nad oes unrhyw ohonynt ddatganiad ar hyn o bryd. Cymhareb Disgybl Athro (CDA) Ysgol X yw 21.2 a’i phresenoldeb blyneddol yw 94.5% (Mylocalschool.gov.wales, 2019). Cyllideb yr ysgol fesul disgybl yw £3,320 ac mae’n gorwedd yn y categori cefnogaeth felen (Mylocalschool.gov.wales, 2019).

Astudiaeth achos o ddosbarth BI.2, felly disgybl o’r Cyfnod Sylfaen, yw sail yr astudiaeth hon.

Methodoleg

Arsylwyd gwers foreol rhwng egwyl a chinio. Mae yna 29 o blant yn y dosbarth yma; 9 bechgyn a 20 o ferched. O ran tasgau rhifedd a llenyddiaeth, fe rannwyd y dosbarth i mewn i grwpiau her - y mae Myfyriwr X yn berchen i'r grŵp her uwch ganolog.

Fe arsylwyd y wers mewn modd cyfranogol am ddefnyddir yr awdur fel cynorthwydd ychwanegol yn ystod y wers. Arsylwyd y myfyrwyr tu fewn i'w hamgylchedd naturiol, hamgylchedd cymdeithasol dyddiol a'i hymddygiad dyddiol. Y mae arsylwi cyfranogol yn broses sy'n symud o arsylwi gweledol hyd at arsylwi sydd wedi ei ffocysu, ac ymlaen i arsylwi dewisol (Flick, 2009).

Defnyddir y dull arsylwi cyfranogol am ei fod yn safbwynt Simpson and Tuson (2003) "y dull mwyaf ymwithiol" o arsylwi. Ysgrifennwyd nodiadau arsylwi yn ystod y wers, ac fe lenwyd a'i dadansoddwyd ar ôl i'r ddiwrnod ysgol dod i ben i greu model BWA (gweler *Atodiadau*).

Defnyddir dull lled-strwythuredig yn ystod y cyfnod arsylwi - rhoddir y dull yma strwythur iddwf. Cadwaf y dull ond yn lled-strwythuredig ac nid yn llawn-strwythuredig er mwyn cadw'r amgylchedd digymell sydd ei hangen mewn dosbarth Cyfnod Sylfaen.

Rhaid talu sylw difrifol ar ffactorau a all dylanwadu ar y broses o gasglu ei ddata. Mae'r awdur yn ymwybodol o dueddiadau all godi yn ynglŷn â chywirdeb ei ddata, megis yr effaith Hawthorne. Fan hyn, mae'n bosib i gyd-destun yr ymyrraeth neu bŵer y sefyllfa amnewid adweithedd y myfyrwyr am eu bod yn sylweddoli maent yn cael ei harsylwi. Yn bellach, hefyd am eu bod yn chwarae rôl fel moch cwta yn fy ymchwil). Yn sicr, fe all data ansoddol sy'n tarddu o arsylwi cyfranogol ymgodi problemau megis data sy'n oddrychol, rhagfarnllyd, argraffiadol ac idiosyncratig (Cohen, Manion and Morrison, 2011).

Yn ogystal â hyn, talir sylw tuag at faterion moesol a all ymgodi. Fe godwyd Robson (1993) 10 arferion dadleuol ynglŷn ag ymchwil cymdeithasol. Wrth alw'r rhain "arferion dadleuol" ac nid ardaloedd y dylid eu gwahardd, amlinellir Robson (1993) nad yw'r arferion yma yn ddu a gwyn a gwir neu gai fel petai. Mae'r rhain yn ffurfio'r broblem ynglŷn â'r benbleth foesegol. Trafodwyd Cohen, Manion and Morrison (2011) y gymhareb costau:buddion. Mae gwaith Frankfort-Nachimas and Nachimas (1992) yn mynegi hwn fel gwrthdrawiad rhwng 2 hawl: yr hawl i arwain ymchwil i ennill gwybodaeth yn erbyn hawliau'r cyfranogwyr i hunan benderfyniad, preifatrwydd ac urddas. Yn syml, dyma'r benbleth sylfaenol dros ymchwil cymdeithasol - nid oes ffordd gywir neu anghywir pendant fel petai.

Digwyddiad beirniadol yn gysylltiedig â Phedwar Diben Donaldson

Ym mhennod 3 o *Ddyfodol Llwyddiannus*, fe sonnir (Donaldson, 2015) am ddibenion Fframwaith 2022. Deheuad Yr Athro Donaldson yw ffurfio "dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes". Gan fod y digwyddiad yma ar ddisgybl sy'n Fwy Abl a Talentog, mae'n ymgysylltu gyda nifer o is-ddibenion o'r diben y soniaf uchod. Yn amlwg,

mae Myfyriwr X efo dawn ar gyfer rhifau a gobeithiaf bydd ef/hi yn “gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn ei mwynhau”. Roedd y myfyriwr yma yn diflasu wrth gwblhau, a pan roddwyd her newydd iddo fe wnaeth cymryd y fenter gyda'r hyn a osodwyd. Rhaid cofio dim ond disgybl BI.2 yw'r hyn a arsylwyd, felly gobeithiaf fe wnaeth Disgybl X dechrau herio ei hunain wrth dyfu trwy gyfnod allweddol 2, 3 ac ati.

Hefyd, mae'n ymgysylltu a dibenion Donaldson (2015) eraill. Gobeithiaf daeth Disgybl X yma yn “gyfrannwr mentrus, creadigol ac yn barod i chwarae ei rhan yn llawn yn ei bywyd a'u gwaith”. Hoffwn weld y myfyriwr yma yn cymhwyso'r sgiliau datrys problemau, meddwl critigol a gwynnwch a ffurfiwyd o'i fathemateg i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Nid yw ddibenion Donaldson (2015) yn arunig, ond mae'r 4 ohonynt yn rhynggysylltu i ffurfio addysg sy'n fwy cyfunedig na'r model datgymalog sydd dal yn bodoli. Amcanaf wnaeth dawn fathemategol Disgybl X sbadurno nodwedd “egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd”. Gellir defnyddio'r sgiliau dadansoddol a chafodd eu creu er mwyn canfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn.

Hefyd, hoffwn weld y myfyriwr yma yn datblygu fel “unigolyn iach, hyderus” - gall Myfyriwr X trosglwyddo'r nodweddion a ddatblygwyd yn ei waith academiaidd i'u fywyd ehangach megis ei iechyd a lles. Hoffwn weld bod Myfyriwr X yn defnyddio ei gallu MAT yn fathemateg fel sbring fwrdd i ddod yn berson “sydd yn barod i fyw bywyd gan wireddu ei dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas”.

Adolygiad o lenyddiaeth

Y mae'r astudiaeth a arsylwyd wedi sbarduno fy ymchwiliad i'r llenyddiaeth ynglŷn â'r testunau a astudiwyd a thestunau agos. Mae'r dywediad “Mwy Abl a Thalentog” yma wedi dod yn boblogaidd yng Nghymru yn y a arweiniodd hyd at LAMBERT (2010), fe ddywed. Fe dadlau y mae'r sgysiau ac ymarferion a ddilynwyd yn adlewyrchu'r obsesiwn niweidiol o gategoreiddio myfyrwyr ar sail cysyniadau sydd wedi'i ddiffinio gan gymdeithasol a ddiwylliannol (Hart, 2004).

Ar gyfer yr adolygiad hwn, fe gyfeirir yr awdur at “mwy abl” yn nhermau “dawnus” er mwyn cyd-fynd efo'r derminoleg a ddefnyddir yn y llenyddiaeth yn Lloegr (lle mae llawer o'r llenyddiaeth yn tarddu). Nid yw'r diffiniadau yma wastad yn eglur. Dywed Winstanley (2009) *“It is impossible to give a clear an uncontroversial definition”* ar gyfer ddisgyblion MAT am fod y maes addysg wedi methu i ddod i gonsensws ar sut i ddiffinio “gallu uwch”.

Yn ôl LAMBERT (2010) mae 2 llinyn i MAT: y “mwy abl” (neu “dawnus”) sy'n awgrymu dawn a rhoddir i'r plentyn o ganlyniad i'w enedigaeth neu yn ystod ei magwraeth; a “thalentog” sy'n awgrymu rhywbeth nad oes achos neu darddiad clir. Nid yw'n ystyried ffactorau socio-economaidd megis cefnogaeth rhieni, amgylchedd cynhyrfiol, athrawon cymhwysol nag ethig gwaith. Cyfeirir LAMBERT (2010) at MAT fel at ddisgyblion sy'n cyflawni'n uchel. O

safbwynt gwahanol i Lambert, ystyrir Adran Addysg a Sgiliau Lloegr a hefyd Ofsted “dawnus” fel *“those with those with academic ability which ‘places them significantly above the average for their year group”* (Giftedphoenix.files.wordpress.com, 2007). Ystyrir y rhain sy’n “talentog” fel *“those whose abilities in art, music, dance or sport are ‘significantly above average”*. Yn debyg i ddiffiniad yr AAaS ac Ofsted o “dawnus”, mae hwn eto yn safbwynt penodol iawn. Eto, mae’n amrywio rhywsut o ddiffiniad mwy agored Lambert - gan nad yw Lambert yn ebychu “dawnus” ar gyfer gallu academaidd a “talentog” ar gyfer gallu ymarferol. Cefnogir gwaith Freeman (2000) efo’r safbwynt yma, gan ddweud taw dawnau *“are usually easy to measure as intellectual aspects of development”*, ble mae talentau yn cael ei ddarganfod gan arbenigwyr yn y maes. Estynnir gwaith Munro (2002), lle gwahaniaethwyd rhwng myfyrwyr dawnus a’r myfyrwyr talentog. Dywed:

“Talented students as displaying exceptional ability in areas in which they have been explicitly taught, and gifted students as those who display exceptional ability in certain areas without explicit teaching”.

Mae’n rhesymol i feddwl na caiff myfyrwyr dawnus eu hystyried fel talentog (Nicurriculum.org.uk, 2006).

Yn wreiddiol, cafwyd yr eiriau “dawnus” a “thalentog” eu defnyddio’n gyfnewidiol (Nicurriculum.org.uk, 2006). Adegau eraill caiff y syniad o dalent cael ei beirniadu’n llai nag dawn. Sylwir Freeman (2000) a Winstanley (2004) yn aml mae’r term “talentog” yn gysylltiedig efo wyrddodau crefyddol a rhoddwyd gan Dduw. Y mae Winstanley yn ychwanegu at ei ddadl gan awgrymu bod canlyniadau moesol yn bodoli o fod yn “dalentog” - hynny pe bai gan y plentyn cyfrifoldeb i gymhwyso ei alluoedd ai beidio ai wastraffu nhw. Profwyd trafferthion efo ddiffiniadau o “mwy abl” (neu “dawnus”) a “thalentog”. Safbwynt Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesiad Lloegr (Giftedphoenix.files.wordpress.com, 2007) yw bod y diffyg eglurder ynghylch rhain wedi arwain at Gagné (1995) i wneud sylw taw’r cysyniad o fod yn “dawnus” yn rhy anodd ei hamddiffyn am ei *“wedi diffinio yn rhy rydd tra cael ei fesur yn rhy gyfyngol”*. Nid yw’r rhain yr unig rhai efo pryderon am y term MAT, y mae LAMBERT (2010) yn dadlau bod y term MAT yn tueddu’n drwm tuag at y natur a ganfodwyd i’r myfyrwyr ac nid eu magwraeth. Nid yw’r term awgrymu eu hanghenion. Yn ogystal â hyn, nid yw’r term yn awgrymu continwwm neu statws dros dro ar gyfer “abl a thalentog”; fe ddadlau mae dim ond cyflwr cynhenid dysgwr yw beth mae’r term MAT yn ei hymgrymu.

Profwyd trafferthion ymarferol e.e. fe sonnir Casey and Koshy (2013) am un o’i hastudiaethau lle na ddefnyddiwyd 78% o’r ysgolion a arsylwyd rhestrau gwahanol am y myfyrwyr a labelwyd “mwy abl” ac yn “dalentog”. Yn deillio o hyn, profwyd yr athrawon anhawster sy’n deillio o’r terminoleg, am ei bod yn adnabod a chreu rhestr gan ddefnyddio diffiniadau’r ddogfen polisi’r AAaS.

Yn ôl i'r theori, rhoddwyd archwiliad ystyrion gan Gagné (1985) ar y dehongliadau amrywiol o ystyriaeth unigol "dawnus" a "thalentog". Wrth nodi *"the 'conceptual ambiguity of giftedness and talent'"*, mae hi'n dadlau y mae cysylltiad yn bodoli rhwng "dawnus" gyda *"domains' of ability which foster and explain exceptional performance in varied 'fields' of activity, i.e. 'talents'"*. Yn symlach, dywed Gagné mae'n bosibl i fod yn ddawnus (efo gallu eithriadol) heb fod yn dalentog (dangos perfformiad eithriadol), ond nid yw'n gweithio'r ffordd arall. Cytunaf Munro (2002; 2012) efo'r datganiad uchod. Dangosir y dyfyniad uchod bod yr awduron a soniwyd uchod yn mynd mewn llawer o ddyfnder wrth esbonio'r perthynas rhyngddynt; nad yw llawer o'r awduron eraill a astudiwyd yn ymdrechu'n arwyddocaol i wahaniaethu rhyngddynt ond yn bwysicach byth i esbonio'r perthynas rhyngddynt. Dywed Gagné (2004; 2019) *"giftedness is a natural ability that requires the appropriate environment and supporting conditions to develop fully into a talent"* - arddangosir Gagné, fel nifer bychan o awduron y perthynas rhwng dawn a talent a sut i'w weithredu. Yn bellach awgryma'r cam nesaf, sef i'w herio'n bellach. Mae hwn yn arwain yr awdur at ei destun nesaf, sef gwahaniaethu.

Defnyddir gwahaniaethu er mwyn cyrraedd anghenion pob myfyriwr, yn enwedig y rhai sydd â phroffiliau dysgu rhagorol (Munro, 2012). Fe amlinella Munro fframwaith i'w ddefnyddio yn y dosbarth sy'n ystyried y dysgwr MAT fel gwybodydd arbenigol a sut i'w ddefnyddio i wahaniaethu'r cwricwlwm. Dywedir nad yw disgyblion MAT yn cael ei herio digon am amrywiaeth o resymau. Fe briodolir y diffyg o wahaniaethu gan athrawon dosbarth i ddiffyg wybodaeth broffesiynol berthnasol - o fewn hwn cynhwysir gwybodaeth ac agwedd dawnus sef yr allu i'w hintegreiddio'r rhain gydag addasiadau i'r cwricwlwm arferol. Ystyria VanTassel-Baska (2012) am wahaniaethu mwy o ochr yr athro a'i ymddygiad. Fe ddywedir *"Classroom differentiation is highly dependent on positive teacher behavioural change in key areas"*. Cynigir y fodel GAYD-D (Graddfa Arsylwi Ystafell Dosbarth - Diwygiedig) er mwyn asesu perfformiad unigol yr athro wrth ymateb is myfyrwyr MAT, gan ddefnyddio paramedrau meintiol. Fe sonnir mewn un o'i bapurau cynharach er bod athrawon fyfyrwyr MAT yn gryf mewn nifer o gategoriâu o ddysgu da, maent ddim cystal yn feysydd eraill lle arholir ymarferion gwahaniaethu. Enghraifft yw pan ffurfiwyd nifer helaeth o'r dosbarth gan y MATs, defnyddir athrawon llai o fodolau sgiliau meddwl lefel uwch - megis model Tacsonomeg Bloom (KRATHWOHL and ANDERSON, 2010) - nag sy'n ei ddisgwyl. Cymra Everest (2003) agwedd mwy negyddol; fe ddywedir *"differentiation is the latest buzzword to have infested education"*. Sonnir Carolan and Guinn (2007) am safbwynt Everest (2003) bod gwahaniaethu yn fandad biwrocraidd a ychwanegwyd i'w llwyth gwaith sydd eisoes yn cynyddu. Ystyrir Carolan and Guinn (2007) safbwynt ymarferol ar wahaniaethu h.y. sut i'w weithredu yn y dosbarth - mae hwn yn debyg i lawer o waith John Munro.

Os caiff y dysgwyr MAT ei herio yn briodol a ddigonol tro ar ôl tro, fe wnaeth hwn newid ei hagwedd - efallai o feddylfryd sefydlog tuag at feddylfryd twf. Mae'r Athro Carol Dweck yn arloeswr yn y maes yma, dywedai:

“two students with equal academic abilities can respond in remarkably different ways to frustration, with one relishing the opportunity to learn and the other demoralised and giving up” (Dweck, Walton and Cohen, 2014).

Mae'r dyfyniad uchod yn differu rhwng y ddau feddylfryd mewn myfyrwyr ifanc ac yn cysylltu'r rhain efo'i chyflawniad yn ysgol. Trafodai ei fodel hunan effeithiolrwydd h.y. cred myfyrwyr o'i allu i addysgu a pherfformio mewn ysgol. Rhagfynegir hwn eu perfformiad academiaidd yn uwch a thu hwnt i'w safon a mesurwyd a pherfformiad blaenorol (Dweck, Walton and Cohen, 2014). Yn Dweck (2015) fe'i hail-ymwela â'r meddylfryd twf ond mewn ffurf llawer mwy cryno. Fe'i cydnabyddi ambell i broblem a godwyd o'i hastudiaethau blaenorol gan sôn am roi gormod o bwyslais ar ennill meddylfryd twf trwy ymdrech yn unig. Fe'i chyfaddef trwy ei wneud i swnio'n rhy hawdd a siarad am naill ai un meddylfryd neu'r llall; ble'r gwir yw gall pobl bod yn gymysgedd o'r ddau. I grynhoi, fe amlinella ei bod hi a'i thîm dal yn dysgu - eu bod ar daith meddylfryd twf hefyd.

Adfyfyrio/Gwerthuso a chamau nesaf

Defnyddir dull Brookfield (1998) er mwyn adfyfyrio ar yr hyn a astudiwyd. Awgrymir Brookfield 4 sbienfrych cyflenwol ar gyfer ymarferwyr i adfyfyrio'n feirniadol ar astudiaeth achos mewn ffordd ddiduedd a chyson:

1. Sbienfrych arsylwadau ei hunain fel dysgwr ymarferol myfyriol
2. Sbienfrych llygaid y dysgwyr
3. Sbienfrych canfyddiadau cydweithwyr a;
4. Sbienfrych y llenyddiaeth ymchwiliol.

Mi fydd yr awdur yn ystyried yr astudiaeth achos a arsylwyd trwy'r safbwyntiau gwahanol yma.

Dim ond yr her addigonol y diflasodd y disgybl a arsylwyd (*gweler Atodiad 2*). Os caiff y disgybl yma ei herio'n ddigonol, ni fyddent yn diflasu. Mae'n fater o gydbwyso, amdanom ni ddylai herio'n rhy galed, am efallai mi fydd yn rhoi'r gorau iddi – ond mae dal eisiau i'r myfyriwr cyrraedd y Parth Datblygiad Procsimol (PDP). Mae hyn yn ein bwydo i mewn i gam pwysig, sef y gynllunio - rhaid cynllunio'n feddylgar fel bod pob disgybl yn gallu dilyn ond hefyd er mwyn i bob disgybl cael ei herio. Dyletswydd broffesiynol yr athro yw sicrhau bod pob disgybl ar dasg a'u fod yn y cyrraedd y PDP y soniwyd Vygotsky amdano.

O safbwynt y disgybl, roedd yn amlwg rhwystrodd y disgybl. Teimlaf os ni fydd yn cael ei herio'n ddigonol, mi allaf Fyfyriwr X meddwl nad yw'r athro yn gofalu amdanynt am nad yw'n cwrdd ag anghenion y myfyriwr. Os ni chaiff y myfyriwr yma ei herio, mae'n bosib mi fydd

e/hi yn colli diddordeb yn y pwnc yma. Oblegid hyn, mi all y myfyriwr yn chwarae dwli yn ystod gwersi a gweithgareddau ynghylch a'r maes dysgu a phrofiad yma. O'm mhrofiad i yn ysgol a siarad fel disgybl a oedd yn arfer dysgu'n gyflym, roedd o'n deimlad digalonnes i finnau pan na cafwyd fy herio'n ddigonol.


Wrth edrych ar yr achos critigol trwy sbienfrych cydweithwyr, gallent feirniadu ar yr athro neu ddsbarth yma er bod dim ond 1 disgybl yn diflasu. Mae dylanwad cyfoedion yn gryf gyda phlant yn y dosbarth, gallent ledaenu ac adlewyrchu'n wael ar yr athro.

O ran yr ymchwil yn y maes yma, mae nifer o astudiaethau yn ffafrio herio'r MATs. Crynhoa astudiaeth VanTassel-Baska et al., (2002):

“high-powered curricula can produce growth gains for gifted learners regardless of the nature of the learner or the grouping model employed”.

Mi fydd cwricwlwm sydd yn herio'n ddigonol, ond nid herio'n ormod, yn galluogi myfyrwyr MAT i drosglwyddo ei ddawn i mewn i dalent h.y. o ddawn mewn ardal benodol i berfformiad eithriadol ar draws eu haddysg holistaidd.

Mi fydd defnydd mwy eang o sgaffaldu yn helpu'r cyflawniad y myfyrwyr MAT. Caiff y term “sgaffaldu” ei dyfeisio gan Jerome Bruner (seicolegydd o'r Unol Daleithiau) (Ragupathi, 2014). Fe danseiliwyd rhai cysyniadau o'r ysgol adeiladol o seicoleg. Cred Vygotskij and Cole (1981) pan mae myfyriwr yn y PDP (y 'ZPD' ar *Ffigur 1*) ar dasg benodol, wrth roi'r arweiniad priodol (h.y. y sgaffaldu) rhoddir y myfyriwr yr atgyfnerthiad a'r sgiliau newydd sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r dasg. Pan mae'r myfyriwr yn cwblhau'r dasg gyda'r sgaffaldau, fe dynnir yr athro'r sgaffaldau i ffwrdd. O ganlyniad, mi fydd yn bosibl i'r disgybl



Ffigur 1 Deigram yn dangos PDP (ZPD) Vygotsky. Yn ôl Ragupathi (2014), disgybl ar yr PDP ar dasg, fe wnaeth y sgaffaelu helpu nhw i cyrraedd canol y ddeigram h.y. beth y gallent wneud yn annibynol.

cwblhau'r un dasg yn y dyfodol yn annibynol. Mae hwn yn ôl Ragupathi (2014) yn cysylltu â'r ysgol meddwl seicolegol adeiladol am fod y maes arweiniad yn tyfu wrth ddysgu'r pwnc. Ymhellach, mae'r maes arweiniad yn tyfu wrth i gymhwysedd y myfyrwyr o gysyniadau'r pwnc tyfu.

Cred yr awdur trwy herio'r myfyrwyr digonol, y defnydd sgaffaldu a trwy gynlluniau arbennig er mwyn gynhyrchu

meddylfryd twf. Dylai ymarferwyr rhoi mwy o bwyslais ar y ffordd rydym yn canfod myfyrwyr MAT. Ni ddylent ganfod disgyblion MAT fel poendod, ond dylai eu canfod fel cyfle i ymestyn nhw a hefyd cyfle i ymestyn ein hunain yn broffesiynol fel addysgwyr, gan fod hwn yn ein galluogi i godi safon yr her iddynt. Dylent harneisio'r disgyblion MAT i addysgu ac arloesi ni hefyd. Dim ond trwy gael ein herio, a gorfodi i adael ein parth cysur, y gallwn sylweddoli beth sydd wir yn bosibl - mae hwn yn wir i'r myfyrwyr ond hefyd i ni hefyd oherwydd ni sy'n hwyluso'r addysgu yma.

Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi rhoi cyfle i mi i arsylwi, adfyfyrio a gwerthuso ymarferion proffesiynol tu fewn a thu fas i'r ystafell ddosbarth. Defnyddir dull gweledol, cyfranogol a lled-strwythedig o arsylwi. Mae'r awdur yn ymwybodol o dueddai a chyfyngiadau a all ymgodi Defnyddir model Brookfield, (1998) er mwyn adfyfyrio ar yr hyn a arsylwyd mewn ffordd gyson, ddiduedd a rhesymol. Wrth adfyfyrio yn ymarferol ac yn gritigol, rhaid bod yn wrthrychol - hynny yw peidio â gadael ein hemosiynau a phrofiadau personol i liwio ein rôl yn y gweithle. Yng Nghymru, mae'n bwysig i ni adfyfyrio ar ein dulliau nid yn unig ar gyfer atebolrwydd ond hefyd er mwyn gwella ein hymarfer. Fe sonnir pennod 7 o Donaldson (2015) am y pwysigrwydd o'r cydbwysedd rhwng rhain er mwyn rhedeg fframwaith cydlynol; nad yw'r cydbwysedd yma yn bodoli ar hyn o bryd - mae yna mwy o bwyslais ar atebolrwydd na'r wella. Y mae'r dull a ddefnyddiwyd yn cysylltu efo'r 5 gwerthoedd a gwarediadau trosafael y Safonau Professional newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Hwb.gov.wales, 2017). O ran y bedagogaeth, mi fydd fy ymchwil yn galluogi dadansoddiad o'r myfyrwyr yn ei hamgylchedd naturiol. Wrth astudio'r broses o addysgu mi fydd yn bosib bod yn atebol i fy ngwaith a sicrhau cysondeb er mwyn sylweddoli'r 4 diben ar gyfer yr orau i'r addysgwyr. Mi fydd ymarfer adfyfyriol yn helpu i dyfu'r bedagogaeth ac er mwyn dyfnhau'r bedagogaeth effeithiol. Yn ychwanegol, trwy adfyfyrio mi fydd yn bosib arloesi ar y bedagogaeth i'w symud ymlaen llaw ac i gydweithredu i alluogi'r pedagogaeth effeithiol i ledaenu i'n cyd-ymarferwyr a phartneriaid.

Cyfeirnodau

- Bera.ac.uk. (2019). *Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018)*.
[online] Available at: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online#privacy> [Accessed 11 Oct. 2019].
- Brookfield, S. (1998). Critically reflective practice. *Journal of Continuing Education in the Health Professions*, 18(4), pp.197-205.
- Carolan, J. and Guinn, A. (2007). *Differentiation: Lessons*. [online] Knilt.arcc.albany.edu. Available at: https://knilt.arcc.albany.edu/images/8/85/Di_unit_1a.pdf [Accessed 18 Oct. 2019].
- Casey, R. and Koshy, V. (2013). Gifted and Talented Education. *Journal for the Education of the Gifted*, 36(1), pp.44-65.
- Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2011). *Research Methods in Education*. 7th ed. Abingdon: Routledge, pp.66, 118, 185 and 186.
- Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [online] Llyw.cymru. Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [Accessed 14 Oct. 2019].
- Dweck, C. (2015). *Carol Dweck Revisits the 'Growth Mindset'*. [online] Stem.org.uk. Available at: <https://www.stem.org.uk/system/files/community-resources/2016/06/DweckEducationWeek.pdf> [Accessed 21 Oct. 2019].
- Dweck, C., Walton, G. and Cohen, G. (2014). *Academic Tenacity: Mindsets and Skills that Promote Long-Term Learning*. [online] Ed.stanford.edu. Available at: <https://ed.stanford.edu/sites/default/files/manual/dweck-walton-cohen-2014.pdf> [Accessed 21 Oct. 2019].
- Everest, C. (2003). *Differentiation, the new monster in education*. [online] the Guardian. Available at: <https://www.theguardian.com/education/2003/feb/18/furthereducation.uk4> [Accessed 18 Oct. 2019].
- Flick, U. (2009). *An introduction to qualitative research*. 4th ed. London: Sage.
- Frankfort-Nachimas, C. and Nachimas, D. (1992). *Research Methods in the Social Science*. London: Edward Arnold.
- Freeman, J. (2000). Children's talent in fine art and music - England. *Roeper Review*, 22(2), pp.98-101.

- Gagné, F. (1985). Giftedness and Talent: Reexamining a Reexamination of the Definitions. *Gifted Child Quarterly*, 29(3), pp.103-112.
- Gagné, F. (1995). From giftedness to talent: A developmental model and its impact on the language of the field. *Roeper Review*, 18(2), pp.103-111.
- Gagné, F. (2004). Transforming gifts into talents: the DMGT as a developmental theory1. *High Ability Studies*, 15(2), pp.119-147.
- Gagné, F. (2019). [online] Available at:
https://www.researchgate.net/publication/287583969_Building_gifts_into_talents_Detailed_overview_of_the_DMGT_20 [Accessed 17 Oct. 2019].
- Giftedphoenix.files.wordpress.com. (2007). *National Quality Standards in Gifted and Talented Education*. [online] Available at:
<https://giftedphoenix.files.wordpress.com/2012/11/iqs-user-guide-january-2007.pdf> [Accessed 17 Oct. 2019].
- Hart, S. (2004). *Learning without limits*. Maidenhead: Open University Press.
- Hwb.gov.wales. (2017). *Safonau proffesiynol - Hwb*. [online] Available at:
<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/#national-approach-to-professional-learning:-professional-teaching-and-leadership-standards> [Accessed 25 Oct. 2019].
- KRATHWOHL, D. and ANDERSON, L. (2010). Merlin C. Wittrock and the Revision of Bloom's Taxonomy. *Educational Psychologist*, 45(1), pp.64-65.
- LAMBERT, M. (2010). 'Gifted and Talented': a label too far?. *FORUM*, 52(1), p.99.
- Lishman, J. (2015). *Handbook for Practice Learning in Social Work and Social Care*. 3rd ed. London, United Kingdom: Jessica Kingsley Publishers, pp.440-454.
- Munro, J. (2002). Gifted learning disabled students. *Australian Journal of Learning Disabilities*, 7(2), pp.20-30.
- Munro, J. (2012). *Effective strategies for implementing differentiated instruction*. [online] ACEReSearch. Available at:
https://research.acer.edu.au/research_conference/RC2012/27august/14/ [Accessed 17 Oct. 2019].
- Mylocalschool.gov.wales. (2019). *Fy Ysgol Lleol*. [online] Available at:
<http://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy> [Accessed 11 Oct. 2019].

- Niccurriculum.org.uk. (2006). *Gifted and talented children in (and out) of the classroom*.
[online] Available at:
http://www.niccurriculum.org.uk/docs/inclusion_and_sen/gifted/gifted_children_060306.pdf [Accessed 17 Oct. 2019].
- Ragupathi, K. (2014). *Virtually Vygotsky: Using technology to scaffold student learning*.
[online] Research Gate. Available at:
https://www.researchgate.net/publication/290164622_Virtually_Vygotsky_Using_technology_to_scaffold_student_learning [Accessed 25 Oct. 2019].
- Robson, C. (1993). *Real world research*. Oxford: Blackwell.
- Simpson, M. and Tuson, J. (2003). *Using observations in small-scale research: a beginner's guide*. Glasgow: University of Glasgow, the SCRE Centre.
- VanTassel-Baska, J. (2012). Analyzing Differentiation in the Classroom. *Gifted Child Today*, 35(1), pp.42-48.
- VanTassel-Baska, J., Zuo, L., Avery, L. and Little, C. (2002). A Curriculum Study of Gifted-Student Learning in the Language Arts. *Gifted Child Quarterly*, 46(1), pp.30-44.
- Vygotskij, L. and Cole, M. (1981). *Mind in society*. Cambridge, Mass: Harvard Univ. Press.
- Winstanley, C. (2004). *Too clever by half*. Stoke on Trent: Trentham.
- Winstanley, C. (2009). Too cool for school?. *Theory and Research in Education*, 7(3), pp.347-362.
- Wragg, E. (2013). *An Introduction to Classroom Observation (Classic Edition)*. Abingdon, Oxon: Taylor and Francis.

Atodiadau

Atodiad 1



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 25/09/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: - Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 - BL5 gyda 30 o blant - Nad oes cynorthwydd - Hyd y wers tua 40 munud. Y wers olaf cyn cinio - Y testun yw Saesneg a nod y wers yw creu "My evacuee letter plan"
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Eistedda'r myfyrwyr mewn trefn bachgen-merch ar fyrddau o 6 - Gweithia'r myfyrwyr ar y dasg fesul pâr. Mae un crwt heb bartner, ac fe ddywed taw hwn yw'r drefn llawn amser - Cynhwysir gallu cymysg yn llith pob pâr - Defnyddir yr iPads a meddalwedd Socrative, sef portal y dosbarth - Mae nifer helaeth o'r myfyrwyr ar ganolbwyntio ar ei wers - Nad oes rhaid i'r athro code ei lais, mae ganddo bresenoldeb ac awdurdod pwyllog - Credaf mai'r cyflymder yn addas ar gyfer y mwyafrif - ond ar gyfer un disgybl roeddynt yn rhy gyflym am nad oedd wedi danfon ateb i'r rhaglen Socrative. Fe ddangosir yr athro parch iddo and fe wrandawyd Ar lais y plentyn: - Myfyrwyr: "didn't have time" - Athro: "Did I rush you too much?"
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) - Fe gollais ddechrau'r wers felly nad yw'n bosib beirniadu'r hyn a fodelwyd yr athro'r hyn sydd eisiau - Ond wrth arsylwi'r wers, mae'n amlwg mae yna bwrpas i'r wers
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Nifer helaeth yn glir ond un - Ambell i ddisgybl yn danfon mewn syniadau nad oedd wedi cymryd lle yn ystod yr ail ryfel byd
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) - Nad yw pob disgybl yn dilyn y wers a gydag ambell i bâr nad oes cyfraniad hafal rhwng aelodau'r pâr - Credaf caiff pob disgybl eu herio, am ei fod yn cyfrannu i'r wers. Tasg ysgrifennu greadigol mae fe, felly fe all y myfyrwyr ymestyn safon y dasg yma mor bell a gallent - Mae rhai yn gorfod creu sgerbydau mwy manwl (mwy o focsys i'w lenwi) na'r gweddill - dyma'r elfen gwahaniaethu yn cael ei gymhwyso i mewn i'r wers
Asesu



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?

- Fe ddarllenwyd storïau, cofnodion dyddiadur cyn y wers er mwyn helpu ffurfio dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn yr ail ryfel byd
- Yn ystod y wers, fe aseswyd atebion y parau ar y bwrdd rhyngweithiol, am fod y myfyrwyr yn danfon mewn syniadau amser real ar gyfer y sgerbwd trwy Socratica
 - Roedd hwn yn galluogi i'r athro dadansoddi syniadau a chamgymeriadau yn uniongyrchol ac i roi adborth yn gyflym iawn
 - Elfen cyd-asesu i'r gwaith - gofyn i'r myfyrwyr i gyd-asesu gwaith ei gilydd
- Ar ôl y wers, fe fydd y myfyrwyr yn creu sgerbwd wedi seilio ar ddigwyddiadau ffeithiol fe wnaeth y faciws profi
- Credaf roedd gormod o bwyslais ar ramadeg, am ambell waith fe dynnodd yr athro sylw at gamgymeriadau sillafu

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Un disgybl yn chwarae efo'i nadwr a deunydd ysgrifennu eraill trwy gydol y wers ac yn siglo a rai cadair llawer. Roedd ei bartner wedi cymryd menter y dasg - roedd y partner yn gweithio'n annibynnol heb ei gymorth.
- Disgybl arall heb bartner - ar ôl siarad efo eff/hi, dywedodd mai hwn yn sefyllfa llawn amser felly nad oes partner o gwbl. Mae'n bosib i'r disgybl yma colli mas ar y profiad cydweithio yma. Mae'r disgybl am gael ambell i drafferth wrth deipio a defnyddio'r rhaglen ond mae'n eistedd yng nghefn y dosbarth ac mae'n gofyn i'w gyfeillion am help.



Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 25/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Myfyriwr nad oedd yn ymrywmo gyda'r gweithgaredd a chwarae efo'i naddwr a deunydd ysgrifennu eraill.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Digwyddodd achos critigol mewn wers Saesneg yn nhosbarth Bl.5. - Arsylwes d disgybl nad oedd yn ymrwmo'r â'r gweithgaredd digidol a weithredwyd fesul pâr. - Teimlaf yn bryderus - gobeithiaf taw dim ond y wers yma nad oedd yn talu sylw, ond mae'n bosibl mi fydd hwn yn digwydd yn aml.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Gwers llythrennedd lle mewnbynwyd y myfyrwyr eu syniadau ar gyfer adrannau penodol o'r llythyr o dan gyfyngiad amser (5 munud) i bob adran, cyn arolwg ac adborth o'r athro - Fe ddefnyddiwyd iPads, fel pâr, a meddalwedd "Socrative" er mwyn rhoi eu syniadau mewn ffurf amser real i'r athro - mae'n bosibl i'r athro rheoleiddio addysgu'r myfyrwyr o un munud i'r llall. Mae hwn yn elfen asesu ar gyfer dysgu.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth y gallid ei gadw'r un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Roedd y wers yn addas ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion - fe ymrwma'r nifer helaeth ohonynt oni bai am ryw un neu ddwy - Cadw'r gwaith ar raglen Socrative - roedd gweld syniadau'r myfyrwyr mewn amser real yn galluogi i'r athro monitro ei waith a dadansoddi syniadau a chamgymeriadau a godwyd - Elfen cyd-asesu i'r gwaith
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>Beth y gallid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Medru cynnwys y disgybl a oedd yn chwarae efo'i deunydd ysgrifennu yn fwy e.e. trwy eistedd ar flaen y dosbarth yn hytrach na'r cefn, trwy annog ef/hi i gyfrannu, trwy weithio gydag ef/hi neu trwy roi gofyn iddo ef/hi i weithio ar ben ei hunain (yn hytrach na phâr) - Ail-ymweld â chynllun y wers a chaiff pob disgybl ei herio - Yn hytrach nag eistedd ar bwys disgybl cryf, beth am eistedd ar bwys disgybl sydd hefyd yn "gwan" - gorfodi i'w cyfrannu a chydweithio? - Amrywio'r wers yn fwy. Teimlaf fod y dasg braidd yn ailadroddus. Efallai mai eisiau amrywio'r dull o gyflawni'r wybodaeth e.e. mewn ffordd adrodd ar lafar neu greadigol er mwyn esbonio ei syniadau - gobeithiaf mi fydd yr amrywiaeth yma yn cymhwyso pawb am fod pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 2



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: - Dosbarth Cyfnod Sylfaen (Bl.2) 20 o fechgyn, 9 o ferched - Maent yn cael ei grwpio yn ôl gallu - fan hyn, mae'r grŵp uwch ganolig yn eistedd fesul grŵp o 7 blant - Nod y wers yw cyfrif yn ôl fesul 1 o rif penodol - Hyd o tua 1 awr - Defnyddir ffon mesur am y broses modelu, er mwyn dangos yr unedau gwahanol - Disgwylir i'r plant cyfri o'r cof ond mae llinellau rhif bychan os oes angen.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Mae'r plant yn eistedd fesul un grŵp mawr ar y carped am y broses modelu lle mae'r athro yn modelu cyfri - Ymrwyma'r plant efo'r dysgu uniongyrchol - Eistedda ar fyrddau - nid oes trefn eistedd benodol.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) - Mae'r pwrpas yn glir, am fod cyfri yn weithgaredd systematig - Mae'r pwrpas yn cyd-fynd efo'r wers.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Caiff y ddysgu uniongyrchol ei hesbonio yn weledol efo'r ffon mesur - Mae'r cyflymder yn deg, am fod y mwyafrif yn dilyn
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) - Ydy – mae'r mwyafrif yn cael ei herio oni bai am 1 (gweler isod) - Mae gwahaniaethu ar gael am y disgyblion MAT trwy ddefnydd rhifau mwy o faint. Os yw disgybl yn gwynegu trafferth, defnyddir rhifau llai - Hefyd, caiff ei herio'n bellach trwy osod mwy o'r symiau anodd yma.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? - Cyn: cyfri nôl fesul dosbarth ac wedyn fesul grŵp gallu - Yn ystod: mae yna dasg llenwi bylchau gwag yn eu llyfrau mathemateg - Ar ôl: fe fydd y wers nesaf yn adeiladu ar destun y wers yma.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Un disgybl nad yw'n ymuno gyda'r cyfri nôl o e.e. 20, 40 a 50 fesul 1 - wrth fod amser yn bwrw ymlaen, mae'n ymuno - Disgybl MAT yn diflasu ar ôl cwblhau'r dasg yn gyflym iawn – mae angen her well. - Caiff y disgybl yma ei herio'n bellach trwy gyfri yn ôl o rifau mwy e.e. 343, 342 a.y.b.

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl sy'n MAT yn mathemateg

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Digwyddodd achos critigol yn wers mathemateg/rhifedd yn nhosbarth BI.2. - Arsylwes disgybl yn ddiflasu oherwydd nad oedd ei waith yn digon heriol. - Teimlaf yn braf – mae'n amlwg mae dawn/affined gyda'r disgybl yma tuag at mathemateg/rhifed, a gobeithio caiff ei herio yn ystod ei haddysg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- NYW yw "cyfrif yn ôl fesul 1" o'i chôf o e.e. 50. Llinellau rhif a sgwarau rhif ar gael os oes angen. Caiff y weithgaredd ei esbonio a mae'r gweithgaredd hyrwyddo pwrpas a thestuny wers. - Un disgybl – nad yw'n serenu yn llenyddiaeth ond mae ei wrth ei fodd wrth gweithio efo rhifau – defnyddir gwahaniaethu ar gyfer ef (e.g. cyfrif lawr 1 o 363 a.y.y.b) ond fe wnaeth e cwblhau pob tasg a osodwyd yn gyflym iawn. - Mae'n amlwg mae'r dasg a osodwyd iddo yn rhy hawdd. Ar ôl chwblhau, mae'r disgybl yn diflasu am rhaid iddo aros i'r athro i osod mwy o symiau, ond mae'r athro ar hyn o bryd yn gweithio gyda grwp ar tasg gwahanol. Digwyddod hwn 3x yn ystod y cyfnod a arsylwyd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gallid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Her y wers – roedd cyfrif yn ôl fesul 1 o e.g. 128 yn addas ar gyfer mwyafrif y grwp. - Roedd gweddill y grwp yn cael ei herio digon gan y dasg â osodwyd - felly eithriad i'r cyfartaledd yw'r disgybl. - O ran llythrennedd, nid yw'r disgybl yma yn serenu – felly mae e yn grwp gallu canolog. - Efallai bydd cyfyngiadau amser ac ati yn olygu na fydd yr athro yna i rhoi heriau iddo, beth am gofyn i'r disgybl i fod yn "study buddy" er mwyn helpu efaill sy'n gwynebu trafferth wrth cyflwyno'r gwaith.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	• Mae'n debygol mae'r disgybl yma gyda dawn neu affined am gweithio gyda rhifau – credaf mae rhaid gosod tasg mwy heriol iddo e.e. cyfrif yn ôl fesu 1 2 a 5, wedyn 3 a 4 o rif penodol. ◦ Ond fel y dywedir Gagné 2004;2019 rhaid i'w herio er mwyn i'r ddawn yma i ddatblygu i mewn i dalent ◦ Yn ôl Rosenthal (1968), dylid gosod targedau uchelgeisiol i'r myfyrwyr er mwyn i'w helpu i lwyddo • Oes yw hwn yn rhy hawdd, herio'n bellach trwy i gyfrif yn ôl fesul 6, 7, 8 a 9 o rifau penodol a hefyd i gyfri lan. ◦ Fe ddywedir Dweck, Walton and Cohen, 2014 ar herio a'r meddylfryd twf "one relishing the opportunity to learn" - mae'n bosib wrth herio'r disgybl yma, fe ddatblygwyd meddylfryd twf wrth adeiladu ei gwytnwch. • Os nad yw'r crwt yn cymryd y fenter am hwn, rhoch dasg gorffen/estynedig ar thema mathemateg e.e. Sudoku i blant a.y.b lle nad oes angen llawer o esboniad - gan olygu nid yw'n cymryd gormod o amser yr athro.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 3



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: - Dosbarth Cyfnod Sylfaen (Bl.2). Caiff ei grwpio yn ôl gallu - Thema'r wers yw llythrennedd ac i fod yn greadigol - Nod y wers yw creu sribyn comig ar garcharwyr - mae'n dasg sy'n mynd i bara mwy nag un wers. Fan hyn, maen nhw'n braslunio'r sribyn - Arsylwyd y grŵp gallu "is" yn ystod y wers yma.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Eistedda'r plant mewn grŵp o 6 ar y bwrdd - Defnyddir ei lyfr iaith wedi'i rhannu i mewn l 4 bocs - Ymrwyma'r plant efo'r wers - nid oes angen i'r athro cystadlu er mwyn cadw eu sylw
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) - Mae yna bwrpas clir i'r ddysgu, gan fod y thema'r das gyn cyd-fynd efo eu thema hanner tymor - Rhoddir y rhyddid i'r plant i fynegi eu hunain mewn ffordd greadigol.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Mae'r myfyrwyr gyda deallusrwydd o beth sydd eu hangen ac maent yn gweithio yn annibynnol er mwyn cyrraedd y nod - Caiff esiamplau eu modelu yn barod - Mae pawb ond 1 disgybl yn dilyn y wers
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) - Mae gwahaniaethu rhwng grwpiau gallu - Mae'r grwpiau uchaf yn creu'r darlunia o'r cof - Mae'r grŵp "is" yn dewis 2 o'r 8 lluniau a arddangoswyd er mwyn eu braslunio
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? - Yn ystod: brasluniwyd y sribyn yn eu llyfrau iaith - mae yna bwyslais ar iaith a gramadeg - Ar ôl: fe fyddant yn parhau efo'r sribyn oherwydd ei fod yn ysgrifennu'r deialog.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Grwpio yn ôl gallu - mae yna fanteision ac anfanteision i hwn - Ond, fe enwyd y grwpiau gallu yn ôl y tymhorau er mwyn gorchuddio'r hyn sydd yn amlwg



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

- Caiff y dudalen ei rhannu i mewn l 2 sector ond mae un disgybl wedi braslunio dros y llinell, gan orchuddio'r 2 hanner
- Un disgybl wedi gwthio'r llall am yr ail dro heddiw - fe ofynnwyd yr athro iddo ef/hi i ymddiheuro ond mae'r disgybl yn gwrthod
- Amser tacluso cyn chwarae, nad yw un plentyn wedi ymuno gyda'r tacluso ond fe aeth mas i chwarae. Danfonwyd disgybl arall i'w chwilio amdano er mwyn i'w ddarganfod a'i holi i dacluso
- Yn ystod yr egwyl prynhawn, fe wnaeth un disgybl dychwelyd o'r iard i adeilad yr ysgol heb ofyn am ganiatâd - fe awgrymir yr athro i'r disgybl nid hwn oedd y tro cyntaf mae hwn wedi digwydd. Caiff ei rhybuddio gydag ymweliad a'r prifathro
- Wedyn ni, yn ystod amser llaeth, fe dynnodd y plentyn yma ei esgidiau oddi wrth ei draed/thraed

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Grwpiau her/cyfarwyddiadau

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Arsylwes disgybl nad oedd yn wrando l gyfarwyddiadau am ei fod wedi braslunio dros y llinell sy'n gwahaniaethu'r tudalen
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Fe sonnir Yr Athro Donaldon ym mhennod 3 yn Nyfodol Llwyddiannus (2015) ei bod eisiau "unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas" - Gobeithio y bydd y disgybl yma gyda'r hyder i ofyn am gymorth oes nad yw ef/hi yn sicr ar gyfarwyddiadau tasg yn y dyfodol
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gallid ei gadw'r un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Yn y dyfodol, fe all yr athro ailadrodd y cyfarwyddiadau er mwyn cadarnhau neges a phroses y dasg - Hefyd, fe all yr athro gofyn cwestiynau sy'n gwirio'r cysyniad i sicrhau bod pob disgybl yn deal beth sydd eu hangen
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gallid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Er fy mod wedi bod o blaen grwpio yn ôl gallu, ar ôl y profiad yma credaf nad yw grwpio yn ôl gallu yn helpu'r dosbarth cyfan - Pe byddwn yn dysgu'r plant yma, fe fyddai'n eistedd a ddisgyblon cryf yn ddrws nesaf i'r disgyblion gwanaf er mwyn iddo baru lan a'i helpu
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 4



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: - Dosbarth Cyfnod Sylfaen (Bl.1) - Grŵp cymysg o 27 o blant - Adnoddau: bwrdd rhyngweithiol, wedyn torri a gludo lluniau o'i chyd-ddisgyblion er mwyn i'w gludo i mewn i graff yn ôl eu lliw llygaid - Hyd y wers tua 40 munud - Athro cyflenwi mewn am y prynhawn
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Mwyafrif yn - Fe holwyd am ei lliw llygaid
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) Oes - maent yn creu arolwg lliw llygaid. Mae'r wers o fewn cyd-destun perthnasol am fod y myfyrwyr yn darganfod mwy am ei chyd-ddisgyblion.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Fe fodelwyd yr athro'r dasg ar y bwrdd - Mae'r cyflymder yn addas fel bod pawb yn dilyn
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) Tra bod y grŵp "is" a "canolog" yn mynd wrthi i dorri a gludo, fe esbonia'r athro i'r grŵp "cryf" sut i greu siart tali i arddangos lliw llygaid ei gyd-fyfyrwyr mewn ffordd ddigidol - dyma'r elfen gwahaniaethu.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? - Fe ofynnwyd i'r plant am ei lliw llygaid pan maent yn eistedd ar y carped - Fe aseswyd yn ystod ac ar ôl trwy gludo llun y plentyn uwchben y golofn lliw llygaid cywir (graff bar yn ymddangos y lliwiau gwahanol) - Mae'r athro efo cofnod ei hun o'r lliwiau gwahanol pob myfiwr fel bod rhywbeth i'w croesgyfeirio ati wrth farcio
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Yn dilyn y wers, roedd amser egwyl prynhawn - Yn ystod hyn, fe grafwyd un plentyn un arall - Fe ofynnwyd iddo aros gyda'r staff, ond fe wnaeth y myfyriwr ddim aros fel y gofynnir - Plentyn arall yn pinsio plenty arall - Wrth resi lan, un plenty Bl.1 yn poeri dros yr awdur - aeth i weld y prifathro.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Ymddygiad a pharch tuag at cyd-myfyrwyr a staff

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	• Fe arsylwes achos critigol o disgybl BI.2 • Gweles achos o disgybl nad oedd yn naill ai deall a/neu dilyn rheolau'r athro • Fe wnes I pryderu, am all fod y disgybl yma mewn sefyllfa peryglus am y dyfodol
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	• Dywedau Yr Athro Donaldson ym mhennod 3 Dyfodol Llwyddiannus, am un o'r pedwar dibenion, fe ddywed ei fod ei eisiau creu "dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod I fod yn ddinasyddion I Gymru a'r byd" ◦ Os yw myfyrwyr yn crafu a pinsio ei gilydd, a phoeri dros darpar athro/aelod o staff, nid ydynt yn ymddwyn fel "dinasyddion egwyddorol" • Yn ogystal a hyn, fe ddywed am greu "unigolion iach, hyderus sydd yn yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd" ◦ Wrth edrych ar y ddigwyddiadau yma, nad oes llawer o ymddiriedaeth a cyd-barch i'w weld
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gallid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	• Y bore hynny, fe arweiniodd yr athro sesiwn "pa fath o ddosbarth rydych eisiau?", ond y plant oedd yn cyfrannu wrth sefyll o flaen y dosbarth ◦ Yn dilyn hwn, fe atgoffwyd y myfyrwyr o reolau'r dosbarth
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gallid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	• Gwobrau am ymddygiad da • Creu siarter ddosbarth gyda phob myfyriwr ac aelodau staff i'w hyrwyddo - esbonio'r pwysigrwydd o ymrwmo i mewn i'r syniad yma • Os yw digwyddiadau fel hyn yn ailadrodd yn y dyfodol, efallai bydd angen cael y prifathro neu'r dirprwy i siarad efo nhw • Os nad yw hyn yn gweithio, efallai bydd angen cael pobl allanol mewn neu wahanu'r plant sydd yn gwrthdaro yn aml (h.y. rhoi i mewn i ddosbarthiadau gwahanol)
Y profiad newydd / Transformed experience	